Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 8 Awst 2006

Teitl: CEFNOGAETH GENEDLAETHOL I HYBU AMRYWIAETH YN EIN PRIFYSGOLION

Mae'r corff sy'n gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru wedi cyflogi cydgysylltydd cenedlaethol cyntaf Cymru i helpu prifysgolion a cholegau i roi eu polisïau ar amrywiaeth ar waith.

Bydd Cydgysylltydd Anabledd ac Amrywiaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gweithio'n agos â sefydliadau addysg uwch Cymru i roi cymorth ymarferol ac arweiniad iddynt ar sut orau i wneud cyfle cyfartal yn realiti i fyfyrwyr – a bydd yn chwarae rhan bwysig mewn llunio polisïau CCAUC ym meysydd anabledd ac amrywiaeth yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae Vikki Burge, sydd â bron 10 mlynedd o brofiad o weithio ym myd addysg, yn fwyaf diweddar fel swyddog uwch â chyfrifoldeb dros reoli gwasanaethau anabledd a mynediad, yn edrych ymlaen at yr her newydd. Mae hi'n gobeithio y bydd y prifysgolion a cholegau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu profiadau myfyrwyr anabl ac adnoddau ar eu cyfer, a hynny ar adeg pan ydynt yn paratoi eu Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd cyntaf erioed.

Meddai Vikki, sy'n gweithio o swyddfa CCAUC yn Llanisien, Caerdydd:

'Rydw i'n ysu am ddechrau gweithio gyda'r prifysgolion a cholegau yn fy swydd newydd. Rydw i'n argyhoeddedig y gellir cyflawni cymaint yn fwy drwy fabwysiadu'r agwedd gydlynol hon at amrywiaeth mewn addysg uwch a chael adnodd canolog y gall yr holl sefydliadau fanteisio arno.

"Mae'r sefydliadau addysg uwch wedi gwneud gwelliannau aruthrol i'r gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr anabl yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallwch weld hyn drwy edrych ar ddangosyddion perfformiad diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Dangosant fod sefydliadau yng Nghymru'n recriwtio cyfran uwch o fyfyrwyr sy'n derbyn y Lwfans Myfyrwyr Anabl na'r Deyrnas Unedig at ei gilydd.

“Er bod hyn yn newyddion gwych, rhaid i ni wneud rhagor o waith i wthio materion anabledd ac amrywiaeth i fyny’r agenda yn ein prifysgolion a cholegau drwy weithio ag uwch reolwyr i gynyddu cyfleoedd i’r holl fyfyrwyr – a staff – i’r eithaf, beth bynnag yw eu cefndir.

“Rydw i wrth fy modd gyda’r swydd newydd hon, a rydw y’n edrych ymlaen at weithio gyda’r sector i wneud cyfle cyfartal yn realiti i fyfyrwyr.”

Diwedd.

Cysylltiadau yn y cyfryngau

CCAUC

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebu - 029 2068 2225.
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Rheolaeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

Cefndir – CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe’i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae’r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu’r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a’r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae’r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â’i gyfrifoldebau cyllido, mae’r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk